

Trin syndrom ymgarthu rhwystredig drwy dynnu meinwe diangen o'r anws â dyfais styffylu

*Mae arweiniad
Techlechydd NICE
yn rhoi cyngor i'r
GIG ar pryd a sut y
gellir defnyddio
triniaethau
llawfeddygol
newydd mewn arfer
clinigol.*

Mae'r daflen hon yn ymwneud a phryd a sut y gellir defnyddio echdoriad rhefrol trawsrefrol wedi'i styffylu (STARR) yn y GIG i drin pobl â rhwymedd difrifol neu lwyr ac anhawster pasio carthion (syndrom ymgarthu rhwystredig). Mae'n egluro'r canllawiau (cyngor) gan NICE (y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol).

Mae arweiniad Techlechydd yn gwneud argymhellion ar ddiogelwch triniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio. Mae ymyriad yn brawf, triniaeth neu lawdriniaeth sy'n cynnwys torri neu wneud twll yn y croen, neu endosgop i edrych y tu mewn i'r corff, neu ffynonellau ynni fel pelydrau-X, gwres neu uwchsain. Nid yw'r canllawiau yn cynnwys p'un a ddylai'r GIG ariannu'r driniaeth ai peidio. Gwneir penderfyniadau ynghylch arian gan gyrrff lleol y GIG (ymddiriedolaethau gofal sylfaenol ac ymddiriedolaethau ysbyty) ar ôl ystyried pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio a ph'un a yw'n darparu gwerth am arian i'r GIG.

Ysgrifennwyd y daflen hon i helpu pobl y cynigiwyd y driniaeth hon iddynt fel y gallant benderfynu p'un a ddylent gytuno (cydsynio) iddi ai peidio. Nid yw'n disgrifio syndrom ymgarthu rhwystredig na'r driniaeth yn fanwl - dylai aelod o'ch tîm gofal iechyd hefyd roi gwybodaeth lawn a chyngor i chi ar y rhain. Mae'r daflen yn cynnwys rhai cwestiynau y gallech fod am eu gofyn i'ch meddyg i'ch helpu i ddod i benderfyniad. Ceir rhai ffynonellau o wybodaeth bellach ar dudalen 7.

Beth y mae NICE wedi'i ddweud?

Gellir cynnig y driniaeth hon yn rheolaidd fel opsiwn triniaeth i bobl sydd â syndrom ymgarthu rhwystredig, cyn belled â bod meddygon yn siŵr:

- bod y claf yn deall beth mae'n ei olygu a'i fod yn cytuno i gael y driniaeth, ac
- y caiff canlyniadau'r driniaeth eu monitro.

Mae NICE wedi dweud mai dim ond mewn ysbytai ag unedau sy'n arbenigo ar drin cyflyrau ar lawr y pelfis y dylai cyflawni'r driniaeth hon. Dylai tîm o arbenigwyr â phrofiad o'r driniaeth benderfynu pa gleifion y dylid cynnig y driniaeth iddynt.

Sylwadau eraill gan NICE

Mae NICE yn dweud weithiau, yn dilyn y driniaeth, mae cleifion yn colli dros y coluddyn sy'n arwain at frys i agor y coluddion, ac achosion o faeddu. Nid yw'n glir o'r dystiolaeth ai'r driniaeth achosodd y cyflyrau hyn, neu yntau a oeddent eisoes yn bresennol ond yn gudd oherwydd y syndrom ymgarthu rhwystredig.

Cafodd NICE naw holiadur wedi'u cwblhau gan gleifion a gafodd y driniaeth hon. O'r rhain, dywedodd pump fod y driniaeth wedi arwain at welliant mawr yn ansawdd eu bywyd.

*Efallai nad hon yw'r
unig driniaeth bosibl
ar gyfer syndrom
ymgarthu
rhwystredig.*

*Dylai eich tîm gofal
iechyd siarad â chi
ynghylch*

*p'un a yw'n addas i
chi a pha opsiynau
triniaeth eraill sydd
ar gael.*

Trin syndrom ymgarthu rhwystredig drwy dynnu meinwe diangen o'r anws â dyfais styffylu

Yr enw meddygol am y driniaeth hon yw 'echdoriad rhesrefrol trawsrefrol wedi'i styffylu ar gyfer syndrom ymgarthu rhwystredig'.

Ni chaiff y driniaeth ei disgrifio'n fanwl yma - siaradwch â'ch arbenigwr i gael disgrifiad llawn.

Caiff syndrom ymgarthu rhwystredig ei nodweddu gan yr awydd i basio carthion ond heb fedru gwneud hynny'n iawn. Ymysg y symptomau cyffredin mae rhwymedd, straenio gormodol, poen, a gwaedu ar ôl pasio carthion. Efallai y bydd y claf yn teimlo hefyd nad yw'r coluddyn yn wag ar ôl pasio carthion.

Gall newidiadau mewn deiet, moddion gweithio (laxatives) ac ymarferion llawr y pelfis helpu yn aml. Gall ymarferion i ailhyfforddi'r coluddyn drwy ddefnyddio stiliwr bach a osodir yn y rhefr (a elwir yn bioadborth) fod yn opsiwn. Os na fydd y dulliau hyn yn gweithio, gall llawdriniaeth i wella gweithrediad y coluddyn isaf neu i'w gynnal fod yn opsiwn hefyd. Mae sawl math gwahanol o driniaethau ar gael y gellir eu cynnig.

Fel rhan o'r driniaeth yr edrychodd NICE arni, rhoddir anesthetig cyffredinol neu anesthetig y cefn i'r cleifion. Gosodir dyfais sy'n ehangu (a elwir yn ledwr) i mewn i'r anws, a defnyddir dau stwfflwr i dynnu ac ailuno rhannau o walïau blaen a chefn y rhefr. Bydd angen rhai pwythau mewnol yn aml.

Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Mae NICE wedi dweud bod y driniaeth hon yn ddigon diogel a'i bod yn gweithio'n ddigon da i gael ei defnyddio yn y GIG. Os yw eich meddyg yn credu bod hon yn driniaeth addas i chi, dylai sicrhau eich bod yn deall y manteision a'r risgiau o hyd cyn gofyn i chi gytuno i gael y driniaeth.

Efallai y byddwch am ofyn y cwestiynau isod

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl?
- Beth yw'r tebygolrwydd y bydd y manteision hynny yn berthnasol i mi? A allai'r driniaeth wneud i mi deimlo'n waeth?
- A oes triniaethau eraill ar gael?
- Beth yw risgiau'r driniaeth?
- A yw'r risgiau'n fach neu'n ddifrifol? Pa mor debygol ydyw y byddant yn digwydd?
- Pa ofal fydd ei angen arnaf ar ôl y llawdriniaeth?
- Beth fydd yn digwydd os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth allai ddigwydd os na chaf y driniaeth?

*Gallech ddewis cael
y driniaeth hon, cael
triniaeth wahanol,
neu beidio â chael
triniaeth
o gwbl.*

Crynodeb o fanteision a risgiau posibl

Ceir disgrifiad bras o rai o'r manteision a'r risgiau a welwyd yn yr astudiaethau a ystyriwyd gan NICE isod. Edrychodd NICE ar 11 astudiaeth o'r driniaeth hon ac un gofrestr data cleifion.

Pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio?

Llwyddodd STARR i drin syndrom ymgarthu rhwystredig mewn 44 allan o 54 o gleifion mewn un astudiaeth, a 22 allan o 25 o gleifion mewn astudiaeth arall. Roedd y cyfraddau llwyddiant yn uwch ym mhob un o'r astudiaethau hyn nag yn y triniaethau yr oeddent yn cael eu cymharu yn eu herbyn, sef bioadborth a styffylu'r coluddion yn y drefn honno. Nododd trydedd astudiaeth gyfradd methiant o 6 allan o 36 o gleifion.

Dangosodd data o gofrestr o 2838 o gleifion fod symptomau syndrom ymgarthu rhwystredig wedi lleihau ar ôl 12 mis yn achos y 2224 o gleifion a gafodd eu trin gan STARR.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddygaeth. Dywedodd y cynghorwyr fod y driniaeth yn gwella ansawdd bywyd.

Risgiau a phroblemau posibl

Nodwyd madredd, lle y mae meinweoedd a gwaed yn cael eu heintio, mewn 124 o gleifion ar gofrestr o 2838 o gleifion. Mewn astudiaeth o 38 o gleifion, datblygodd un sioc septig a dirywiad meinwe, a bu farw.

Ffurfiodd agoriad (ffistwla) rhwng rhefr a fagina un fenyw yn y gofrestr o 2838 o gleifion, ac mewn menyw arall yn yr astudiaeth o 230 o gleifion.

Nodwyd achosion o faeddu yn parhau ar ôl y driniaeth mewn tri allan o 36 o gleifion ac mewn naw allan o 104 o gleifion mewn dwy astudiaeth. Nodwyd achosion o ymgarthu brys mewn pedwar allan o 25 o gleifion

Gwybodaeth am arweiniad Techlechyd NICE 224

mewn un astudiaeth, ac mewn chwe allan o 104 o gleifion 12 mis ar ôl y driniaeth mewn astudiaeth arall.

Nodwyd un achos o necrosis rhefrol (dirywiad ym meinwe'r rhefr). Bu'n rhaid creu stoma ar gyfer hwn (agoriad artiffisial o'r coluddyn i'r abdomen, gan ddefnyddio bag casglu).

Yn y gofrestr o 2838 o gleifion, nododd tri chlaf boen yn ystod rhyw.

Nodwyd culhad yn y rhefr mewn hyd at 3% o gleifion mewn pedair astudiaeth. Nodwyd gwaedu ar gyfraddau rhwng 2% (1/54) a 19% (7/36) o gleifion.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddygaeth. Dywedodd y cynghorwyr fod poen, cymhlethdodau o ran y styffylau, tyllau yn waliau'r rhefr a gwaed yn ymgasglu yn wal y rhefr ymhlith y risgiau a'r problemau eraill posibl.

Rhagor o wybodaeth am syndrom ymgarthu rhwystredig

Gall NHS Choices (www.nhsdirect.wales.nhs.uk) fod yn fan da i gael gwybod mwy. Efallai y gall eich gwasanaeth cyngor a chysylltiadau cleifion (a elwir yn 'PALS' fel arfer) lleol roi gwybodaeth a chymorth pellach i chi. I gael manylion am holl ganllawiau NICE ar syndrom ymgarthu rhwystredig, ewch i'n gwefan yn www.nice.org.uk

NICE

Mae NICE yn llunio canllawiau (cyngor) i'r GIG ynglŷn ag atal, canfod a thrin gwahanol gyflyrau meddygol. Ysgrifennir y canllawiau gan arbenigwyr annibynnol gan gynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a phobl sy'n cynrychioli cleifion a gofalwyr. Maent yn ystyried pa mor dda y mae ymyriad yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw, ac yn gofyn barn cynghorwyr arbenigol. Mae'r arweiniad Techlechydd yn berthnasol i'r GIG cyfan yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Disgwylir i staff sy'n gweithio yn y GIG ddilyn y canllawiau hyn.

I gael rhagor o wybodaeth am NICE, ei waith a sut mae'n gwneud penderfyniadau, ewch i www.nice.org.uk/aboutguidance.

Mae'r daflen hon yn ymwneud ag 'echdoriad rhesymol trawsrefrol wedi'i styffylu ar gyfer syndrom ymgarthu rhwystredig'. Mae'r daflen hon a'r canllawiau llawn a anelir at weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar gael yn www.nice.org.uk/guidance/HTG224

Rydym yn annog sefydliadau gwirfoddol, sefydliadau'r GIG a chlinigwyr i ddefnyddio testun o'r llyfryn hwn yn eu gwybodaeth eu hunain am y driniaeth hon.

National Institute for Health and Clinical Excellence

MidCity Place, 71 High Holborn, London, WC1V 6NA; www.nice.org.uk

ISBN 978-1-4731-8187-8

N2267 1P June 10

© National Institute for Health and Clinical Excellence, 2010. All rights reserved. This material may be freely reproduced for educational and not-for-profit purposes. No reproduction by or for commercial organisations, or for commercial purposes, is allowed without the express written permission of NICE.